## Cynllun cymhorthdal ar gyfer teithiau ysgolion a cholegau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd

Gall ysgolion a cholegau yng Nghymru hawlio cymhorthdal teithio rhannol i dalu am ymweliadau addysgol â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd. Mae'r daflen hon yn rhoi manylion am sut y gallwch wneud cais.

## Telerau ac Amodau

1. Bydd ysgolion a cholegau yng Nghymru sydd dros 10 milltir o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd (20 milltir ddwy ffordd) yn gymwys i dderbyn cymhorthdal rhannol i dalu am eu hymweliadau addysgol â Chanolfan Ymwelwyr ac Addysg y Cynulliad.

2. **Ni** fydd ysgolion na cholegau sydd llai na 10 milltir o Fae Caerdydd yn gymwys i wneud cais am arian.

3. Gall ysgolion a cholegau hawlio **un** cymhorthdal teithio ym mhob blwyddyn academaidd yn dilyn ymweliad â Chanolfan Ymwelwyr ac Addysg y Cynulliad ym Mae Caerdydd.

4. Ni all ysgolion dderbyn y cymhorthdal teithio os nad ydynt yn derbyn ymweliad addysgol drwy law swyddog addysg y Cynulliad.

5. Mae'n rhaid trefnu ymweliadau addysgol o leiaf dair wythnos ymlaen llaw drwy gysylltu â Llinell Archebu'r Cynulliad ar **0845 010 5500**. Dylai ysgolion drefnu eu hymweliad mor fuan ag sy'n bosibl er mwyn osgoi cael eu siomi. Bydd y sesiynau yn cael eu trefnu ar sail yr egwyddor 'y cyntaf i'r felin…'.

6. Gall ysgolion hawlio cymhorthdal ar gyfer y daith ddwy ffordd fyrraf i'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer un bws yn ystod un flwyddyn ariannol. Mae'n rhaid i hyd y daith mewn milltiroedd gael ei gyfrifo drwy ddefnyddio rhaglen 'RAC route planner'. Bydd costau'n cael eu cyfrif ar sail £1 y filltir am gerbyd wedi'i logi. Ceir cyfarwyddiadau ar sut i wneud cais yn y siart llif.

7. Nid yw'r cymhorthdal ar gael yn ystod gwyliau h.y. gwyliau ysgol a gwyliau'r Cynulliad

8. Mae'r Cynulliad yn cadw'r hawl i ganslo unrhyw ymweliadau sydd wedi'u trefnu, os na ellir cynnig ymweliad addysgol am unrhyw reswm. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn digolledu ysgolion am unrhyw gostau a dalwyd i'r cwmni bysiau/teithio os caiff y trefniadau ar gyfer ymweliad eu canslo.

9. Pan fydd mwy na un ysgol yn ymweld o fewn un slot ymweld, ond un cymhorthdal ariannol a delir os ydych yn yn teithio ar yr un bws. Gall ysgolion dderbyn taliadau ar wahan, os ydynt yn teithio ar fysiau gwahanol.

10. Dylai trefnwyr yr ymweliadau sicrhau bod y gymhareb rhwng disgyblion ac athrawon yn cydymffurfio â chanllawiau eu Hawdurdod Lleol ac Asesiad Risg Iechyd a Diogelwch y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd yr athrawon yn gyfrifol am ddiogelwch ac ymddygiad eu disgyblion drwy'r amser.

11. Nid yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn gyfrifol am ddiogelwch y disgyblion wrth iddynt deithio i'r Cynulliad, nac ar eu taith yn ôl.